# Ailgylchwch eich bagiau a deunydd lapio plastig

## Mae preswylwyr Abertawe eisoes yn ailgylchu 70% o'u gwastraff, ond rydym am eich helpu i ailgylchu mwy fyth.

**O'ch diwrnod casglu nesaf**, byddwn yn treialu gwasanaeth casglu newydd yn rhai rhannau o'r sir i ddarganfod y ffordd orau o **gasglu ac ailgylchu eich bagiau plastig a deunydd lapio**.

Rydym wedi gwahodd tua 22,000 o gartrefi i gymryd rhan yn y treial, gan gynnwys eich cartref.

Bydd y treial yn cael ei gynnal dros naw mis, gan ddod i ben **ddydd Mercher 24 Rhagfyr 2025**.

Bydd yr eitemau rydyn ni'n eu casglu gennych chi fel rhan o'r treial yn cael eu hailgylchu i wneud nwyddau newydd, fel Bagiau am Oes a bagiau bin. Bydd hyn yn lleihau ein dibyniaeth ar ddeunyddiau newydd neu 'ddeunydd crai' wrth greu nwyddau plastig untro fel y rhain a'n galluogi i ailgylchu mwy o'n gwastraff o gartref.

**Yn dechrau ar eich DIWRNOD CASGLU 'WYTHNOS BINC' NESAF**

**Yn gorffen DDYDD MERCHER 24 RHAGFYR 2025**

**Wyddoch chi fod... bron i 9% o'r hyn sydd yn eich bagiau du yn cynnwys bagiau a deunydd lapio plastig?**





**Abertawe yn ailgylchu**
**Swansea recycles**

Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

# Beth ddylwn i ei wneud?

Gyda'r daflen hon, rydym wedi danfon i'ch cartref **rolyn o fagiau glas**.



**O'ch diwrnod casglu 'wythnos binc' nesaf**, os gwelwch yn dda:

1. **rhowch eich bagiau a deunydd lapio plastig gwag mewn bag glas** (gweler y dudalen nesaf am y mathau o eitemau y byddwn yn eu casglu gennych)

2. ar ôl ei llenwi, **clymwch eich bag yn ddiogel gyda chwlwm dwbl** i atal ei chynnwys rhag dianc

3. **rhowch eich bag glas wrth ymyl eich bag pinc ailddefnyddiadwy** ar eich diwrnod casglu 'wythnos binc' arferol, bob pythefnos



**Rhowch eitemau yn rhydd y tu mewn i'ch bagiau**; peidiwch â rhoi un eitem y tu mewn i un arall, gan fod hyn yn ei gwneud hi'n anodd sortio'ch eitemau pan fyddant yn cael eu prosesu i'w hailgylchu.

Ni ddylai fod angen i chi roi mwy nag un bag llawn allan bob pythefnos yn ystod y treial, ond os oes angen i chi gasglu mwy o fagiau, cysylltwch â ni.

# Rhowch gynnig ar ein raffl i ennill cerdyn rhodd gwerth £50

Dywedwch eich barn wrthym am y treial drwy lenwi **arolwg cyflym**, a byddwn yn eich cynnwys mewn raffl i ennill **Cerdyn Rhodd One4all gwerth £50**.

Bydd yr arolwg ar agor o ddydd Llun 30 Mehefin am bedair wythnos.

Byddwn yn ysgrifennu atoch eto ychydig cyn i'r arolwg agor.

I gymryd rhan yn y raffl, neu i gael rhagor o wybodaeth am y treial:

- sganiwch y cod QR,
- ewch i www.abertawe.gov.uk/plastigaumeddal, neu
- ffoniwch ni ar 01792 635600.

**Sylwer:** mae gwerth cerdyn rhodd y raffl wedi'i ariannu i Gyngor Abertawe gan Lywodraeth Cymru; nid yw'n cael ei dalu amdano gan ddefnyddio taliadau Treth y Cyngor preswylwyr.

# Pa eitemau ddylwn i eu rhoi yn fy magiau?




Bagiau siopa plastig




Pecynnau creision a chnau



Pecynnau bisgedi



Pecynnau bariau siocled a melysion




Bagiau pasta a reis




Bagiau bara



Bagiau leinio bocsys grawnfwyd




Bagiau parseli/ danfoniadau plastig




Labeli/pecynnau plastig o amgylch poteli diodydd



Bagiau bwyd cathod a chŵn plastig



Bagiau sychlanhau a bagiau lapio dillad newydd



Deunydd pacio plastig a ddefnyddir gan adwerthwyr i ddosbarthu eitemau cartref, megis nwyddau gwyn



Bagiau compost gardd ac uwchbridd plastig



Deunydd lapio plastig a ddefnyddir ar gyfer pecynnau aml-becyn creision, cnau a melysion




Bagiau ffrwythau, salad a llysiau wedi'u pacio'n barod



Bagiau plastig tenau sy'n dal eitemau ffrwythau, salad a llysiau rhydd



Ffilm, fel caeadau prydau parod a chaeadau potiau iogwrt




Bagiau rhewgell



Bagiau bwyd rhewgell



Deunydd lapio cylchgronau a phapurau newydd



Deunydd lapio aml-becyn a dolenni plastig o becynnau poteli a chaniau




Deunydd lapio pecynnau o bapur toiled a phapur cegin

**Sicrhewch fod eich bagiau a deunydd lapio plastig yn wag a rhowch rinsiad cyflym iddynt i gael gwared â chymaint o weddillion bwyd â phosibl.**

# Pa eitemau NA ddylwn i eu rhoi yn fy magiau?



Haenen lynu



Polystyren neu ewyn



Tiwbiau creision



Codenni neu sachets a ddefnyddir ar gyfer bwyd (fel reis microdon), diodydd, bwyd babanod neu anifeiliaid anwes




Bagiau rhannu neu godenni a ddefnyddir ar gyfer siocledi neu losin



Codenni neu sachets a ddefnyddir ar gyfer nwyddau glanhau, fel capsiwlau neu dabledi peiriant golchi llestri neu olchi dillad




Rhwydi plastig a ddefnyddir i bacio ffrwythau a llysiau



Pocedi plastig tyllog, fel 'Poly Pockets'



Gwellt neu gyllyll a ffyrc plastig



Menig neu fasgiau tafladwy



Balwnau



Pecynnau swigod plastig a ddefnyddir ar gyfer tabledi

**!**

**Daliwch ati i roi'r eitemau hyn yn eich bagiau du ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.**

**Ni fyddwn yn casglu eich bagiau glas os ydynt yn cynnwys eitemau anghywir neu'n cynnwys bwyd neu hylif.**

Mae eich **ailgylchu** yn gwneud **gwahaniaeth MAWR** yn Abertawe.

Diolch i chi am barhau i wneud y peth iawn a chwarae eich rhan dros yr amgylchedd, drwy sortio eich gwastraff ac ailgylchu.

www.abertawe.gov.uk/plastigaumeddal

evh@abertawe.gov.uk

01792 635600

ailgylchudrosabertawe

@cyngorabertawe